

“ Mae'r cyhoeddiad 'Rhagolwg o incwm ffermydd yng Nghymru' a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn rhoi cipolwg ar dueddiadau hirdymor mewn incwm ffermydd yng Nghymru. Bydd y Bwletin y Farchnad hwn yn edrych ar ganlyniadau'r cyhoeddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn fanylach. ”



Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



Gall cyfnewidioldeb yn y sector ffermio arwain at newidiadau canrannol mawr mewn incwm ffermydd rhwng pob blwyddyn. Yn ogystal â hyn, gall ystod enfawr o ffactorau ddylanwadu ar lefel incwm busnes fferm – fel lleoliad ffisegol, maint economaidd y fferm, costau cynhyrchu, p'un a yw'r busnes yn buddsoddi, a natur y busnes. Felly, bydd y cyfartaleddau incwm fferm sy'n cael eu trafod isod ond yn rhoi syniad o berfformiad y sector, gan y bydd amrywiadau yn bodoli ar lefel y fferm.

Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, ac felly mae'n cyd-fynd â'r rhyfel yn Wcráin (a ddechreuodd ddiwedd Chwefror 2022) a'r argyfwng costau byw - y mae'r ddau ohonynt wedi cael cryn effaith ar fusnesau fferm yng Nghymru. Mae'r data'n dangos bod **costau mewnbwn fferm wedi codi 15%** ar gyfartaledd o flwyddyn i flwyddyn ar draws pob math o ffermydd, sydd wedi effeithio ar broffidioldeb cyffredinol.

## INCWM FFERMYDD 2022-23



Ffynhonnell: Incwm Ffermydd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2022-23

Ar gyfer 2022-23, rhagwelwyd y byddai incwm busnes cyfartalog fferm wartheg a defaid mewn ardaloedd llai ffafriol (LFA) wedi cynyddu 37% ar y flwyddyn i **£24,300 y fferm** (ar brisiau cyfredol). Mae'r cwmp hwn yn dilyn tair blynedd yn olynol o gynnydd ar gyfer y math hwn o fferm. Mae'r gostyngiad nodedig flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ganlyniad i allbwn busnes fferm yn gostwng 8% ar gyfartaledd, ynghyd â chostau busnes yn codi o 3%. Roedd prisiau gât y fferm ar gyfer gwartheg a defaid yn gryf yn ystod y cyfnod, ond mae'r ffigurau'n dangos nad oedd hyn yn ddigon i wneud iawn am gost gynyddol cynhyrchu a brofwyd o fewn amserlen y cyhoeddiad hwn. Mae gwahaniaethau nodedig rhwng ffermydd LFA, fodd bynnag, mae pob un ohonynt wedi cofnodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn incwm cyfartalog. Er enghraifft; rhagwelir y bydd yr incwm cyfartalog ar gyfer ffermydd defaid/cig eidion SDA wedi profi gostyngiad o 33% (am brisiau cyfredol) i £18,600.

Yr incwm a ragwelwyd ar gyfer fferm wartheg a defaid ar yr iseldir yng Nghymru oedd **£18,700** ar gyfer 2022-23 – gostyngiad o 30% ar ffigur y flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau'n dangos bod y cynnydd mewn costau mewnbwn wedi cael mwy o effaith ar ffermydd tir isel, lle'r oedd costau i fyny 13% ar y flwyddyn. Oherwydd hyn, nid oedd y cynnydd o 5% mewn cynnyrch fferm ar gyfer ffermydd tir isel yn ddigon i wrthbwysu'r cynnydd mewn costau fferm.

## EFFAITH CHWYDDIANT

Cyrhaeddodd costau mewnbwn ffermydd uchafbwyntiau eithafol yn 2022, ac felly disgwyliwyd y byddai canlyniadau cyhoeddi 2022-23 yn adlewyrchu hyn. Gwelwyd yr heriau gyda chostau chwyddiant cynyddol ar draws y gadwyn gyflenwi, gydag elfennau fel staff, cyfleustodau, tanwydd, yswiriant a chyfraddau busnes i gyd yn effeithio ar broffidioldeb busnes. Mae materion staffio wedi bod yn hysbys i'r sector ers cryn amser, gyda chynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn rhoi pwysau ar allu busnesau i gadw staff. O 01 Ebrill 2024, bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cynyddu i £11.44 yr awr (ar gyfer staff 21 mlwydd oed a hŷn) - sy'n gynnydd o bron i 60% ers 2016. Mae cynnydd chwyddiant o'r fath yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gadwyn gyflenwi. Mae'r sector hefyd yn parhau i wynebu heriau o ochr y galw yn y gadwyn gyflenwi hefyd, wrth i'r argyfwng costau byw roi pwysau ar wariant cartrefi ac yn effeithio ar arferion siopa defnyddwyr.

### Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Er bod cynnydd mewn costau mewnbwn fferm wedi sefydlogi rhywfaint yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r lefelau i lawer yn parhau i fod yn uwch. Fel y dengys y data o'r cyhoeddiad; mae llawer o ffermydd ar draws Cymru wedi profi amgylchedd busnes anodd yn ddiweddar. Bydd hyn yn parhau i effeithio ar benderfyniadau busnes wrth symud ymlaen.

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 17 Chwefror

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **494.9c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.2c ar yr wythnos flaenorol,
- 22.3c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 490.7c/kg (-0.4c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 473.5c/kg (-0.6c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 343.0c/kg (-0.1c ar yr wythnos).

### Trwybwn - Ionawr 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 243,700 pen – cynnydd o 4% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 177,800 pen - i fyny 4% ar y flwyddyn.
  - bustych +3%, heffrod +4%, a theirw ifanc +4%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 345.7kg (+2.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 59,300 pen - cynnydd o 8% ar y flwyddyn.

## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 17 Chwefror

Cyfartaledd pris wyn pwysau marw ym Mhrydain oedd 689.9c/kg. Roedd hyn:

- +27.7c ar yr wythnos flaenorol
- Roedd y niferoedd oedd yn dod ymlaen yn cyrraedd 35,000 pen. Roedd hyn:
- + 3% ar yr wythnos flaenorol, a
- - 11% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

**Nodyn:** Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymhell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.

### Trwybwn - Ionawr 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn wyn = 984,000 pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass wyn ar gyfartaledd = 20.8kg (+ 0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 129,000 pen – i lawr 10% ar y flwyddyn.

## MOCH


### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 10 Chwefror

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar 211.4c/kg. Roedd hyn:

- - 1.5c ar yr wythnos flaenorol,
- + 2.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 160.8c/kg).


### Trwybwn - Ionawr 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 868,500 pen – gostyngiad o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 848,600 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch heb fagu ar gyfartaledd = 90.7kg (+1.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,900 pen – cynnydd o 17% ar y flwyddyn




**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU Ionawr '24**

80,700 tonnelli  
+5% b-a-f



**Cynhyrchiant cig defaid yn y DU Ionawr '24**

23,200 tonnelli  
+3% b-a-f



**Cynhyrchiant porc y DU Ionawr '24**

79,900 tonnelli  
-0.1% b-a-f

